

Cylchlythyr Ffês 3

Hydref 2019



Tymor yr Hydref

Dyma dymor hynod o brysur i ddisgyblion Ffes 3 Ysgol Bro Idris. Mae disgyblion blwyddyn 9 yn dechrau ystyried eu pynciau dewis, disgyblion blwyddyn 10 wedi dechrau o ddifri ar eu pynciau TGAU a blwyddyn 11 yn paratoi ar gyfer eu blwyddyn olaf yn yr ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion Ffes 3 wedi mwynhau amrywiaeth o weithgareddau, gweithdai ac ymweliadau felly dyma flas i chi o rai o'r profiadau diddorol hyn.

Ymweld a Phlas Nannau

Yn ddiweddar, ymwelodd Bl.10 â Phlas Nannau ger Llanfachreth i gael ysbrydolaeth ar gyfer uned o waith yn seiliedig ar ysgrifennu creadigol gyda'r adran Saesneg. Yn y gwersi dilynol, roedd yn amlwg fod y daith wedi tanio dychymyg y disgyblion.

Taith Celf a Thecstilau

Yn ystod mis Hydref cafodd blynyddoedd 10 ac 11 gyfle gwych i ymweld â Phortmeirion gyda'r adran Gelf a Thecstilau. Treulion nhw'r diwrnod, er yn wlyb ac oer, yn edrych ar yr adeiladau, y planhigion a'r gwaith celf ar dir pentref yr Eidal. Tynnwyd brasluniau a ffotograffau a fydd yn cael eu datblygu'n waith celf a fydd yn helpu i wella eu portffolios yn y ddau faes. Diolch yn fawr i Portmeirion am y croeso caredig.



'Sioe Kate' yn Yr Ysgwrn

Yn ddiweddar, bu disgyblion blwyddyn 10 ac 11 ar daith i'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd i wyluo 'Sioe Kate'. Sioe ydoedd yn dilyn taith bywyd un o awduresau pwysicaf Cymru a fagwyd ar aelwyd o dlodi chwarelyddol yn Rhosgadfan ac a welodd effaith y Rhyfel Mawr ar ei theulu ac ar gymdeithas. Fel rhan o'u cwrs TGAU, bydd y disgyblion yn astudio gwaith Kate Roberts ac roedd cael gweld 'Sioe Kate' ar lwyfan yn Yr Ysgwrn yn gyfle gwerthfawr iawn iddynt ddeall cefndir a magwraeth yr awdures cyn mynd ati i astudio ei gwaith.

Sesiwn 'Talk the Talk'

Cymerodd blwyddyn 9 ran yng ngweithdy 'Talk the Talk' er mwyn gwella sgiliau siarad yn gyhoeddus. Roedd yn ddiwrnod braf i bawb ac fe ddywedodd y nifer fawr o'r disgyblion fod eu hyder wedi cynyddu. Yn dilyn y sesiwn, cysylltodd y cwmni i ganmol y disgyblion am eu gwaith ac ymroddiad.

Gwaith Elusennol

Bore Coffi Macmillan
Dangoswch Cerdyn Coch at Hiliaeth - £477.62
Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd - £120
Gwaith arbennig mewn cyfnod byr! Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Dyddiadau allweddol:

8/11/19: Tynnu lluniau Blwyddyn 11
12/11/19: Gweithdy ar sut i adolygu (Bl 10 + 11)
15/11/19: Diwrnod Plant Mewn Angen
18/11/19: Arholiadau Blwyddyn 7-9
22/11/19: HMS (dim ysgol i ddisgyblion)
25/11/19: Noson Mathemateg i rieni Ffês 2 a 3
28/11/19: Ffair Nadolig Ysgol Bro Idris
2/12/19-6/12/19: Ffug arholiadau Blwyddyn 11
9/12/19-13/12/19: Ffug arholiadau Blwyddyn 10
18/12/19: Cinio Nadolig
20/12/19: Diwrnod olaf y tymor

Sesiwn STEM i Flwyddyn 9

Dydd Gwener y 4ydd o Hydref, aeth 26 o ddisgyblion blwyddyn 9 i Venue Cymru yn Llandudno i ddiwrnod STEM 'Y Glec Fawr a Rali Cymru (The Big Bang' a Wales Rally GB) o dan ofal Miss Roberts (D&T) a Mr Lewis (Bywydeg). Cafodd y diwrnod ei drefnu gan STEM Cymru. Roedd cyfle i weld stondinau gyda gweithgareddau amrywiol megis 'headsets virtual reality', datrys problemau, rheoli model o jac codi bawb gyda 'grabber' i 'stacio' rwber. Fe wnaed arbrofion i weld rhinweddau rhew sych. Bu cyfle i yrru mewn efelychydd a gweld ceir yn cael eu gwirio a'u trwsio yn y 'pit-stop'. Cafodd pawb ddiwrnod gwerth chweil!



01341424949

www.ysgolbroidris.cymru



@ysgolbroidris



Llwyddianau Ysgol Bro Idris